

Côd Braille Cymraeg

Mae braille Cymraeg yn defnyddio'r un rheolau cyffredinol o ran arwyddion cyfansawdd, arwyddion atalnodi ayyb, â'r rheini a fynegir mewn *The Rules of Unified English Braille* (2013). Fodd bynnag, mae'r wyddor, a'r system o gywasgiadau a ddefnyddir ar gyfer gradd 2 yn arbennig i Gymraeg, ac mae'r ddogfen hon yn cynnwys y rheini i gyd. Yn ogystal, mae yna arwyddion arbennig ar gyfer acenion.

Yr wyddor

a	⠁	ng	⠎⠒	ph	⠏⠒
b	⠃	h	⠒	r	⠞
c	⠉	i	⠇	rh	⠞⠒
ch	⠉⠒	l	⠇	s	⠞
d	⠉	ll	⠇⠇	t	⠞
dd	⠉⠉	m	⠓	th	⠞⠒
e	⠑	n	⠎	u	⠤
f	⠑	o	⠔	w	⠞
ff	⠑⠑	p	⠏	y	⠞
g	⠒				

Yn ogystal, gellir defnyddio gweddill llythrennau'r wyddor Saesneg os bydd angen:

j	⠠⠵	q	⠠⠺	x	⠠⠭
k	⠠⠽	v	⠠⠺	z	⠠⠵

Cywasgiadau

Arwyddion Gair

Arwyddion Gair yr Wyddor:

Arwydd	Ystyr	Ystyr Saesneg	Arwydd	Ystyr	Ystyr Saesneg
⠠	a	and	⠠⠠	llawer	many
⠠	beth	what	⠠	mae	is
⠠	cael	to have	⠠	nid	not
⠠	chwarae	to play	⠠	o	from; of
⠠	dyma	here is	⠠	pobl	people
⠠⠠	ddoe	yesterday	⠠	roedd	was
⠠	fel	like; as	⠠⠠	rhai	some
⠠⠠	ffordd	road; way; manner	⠠	sydd	is; are
⠠	gyda	with	⠠	trwy	through
⠠	hoffi	to like	⠠	unig	lonely; sole; alone
⠠	i	to; for	⠠	wedi	after
⠠	lawr	down	⠠	y	the

Arwyddion Gair Dotiau 4-5-6:

Gellir defnyddio'r arwyddion gair hyn fel rhannau o eiriau hefyd.

Arwydd	Ystyr	Ystyr Saesneg	Arwydd	Ystyr	Ystyr Saesneg
⠠⠠	cyrraedd	to reach; to arrive	⠠⠠	meddwl	to think
⠠⠠	gweithio	to work	⠠⠠	sylweddoli	to realize
⠠⠠	hefyd	also	⠠⠠	wedyn	afterwards

Arwyddion Gair Dot 5:

Gellir defnyddio'r arwyddion gair hyn fel rhannau o eiriau hefyd.

Arwydd	Ystyr	Ystyr Saesneg	Arwydd	Ystyr	Ystyr Saesneg
⠠⠠	chwerthin	to laugh	⠠⠠	plentyn	child
⠠⠠	dydd	day	⠠⠠	rydw	I am
⠠⠠	eistedd	to sit	⠠⠠⠠	rhaid	necessity; must
⠠⠠	fyny	up	⠠⠠	siarad	to speak; to talk
⠠⠠	heddiw	today	⠠⠠	tywydd	weather
⠠⠠	mynd	to go	⠠⠠	uchel	high
⠠⠠	newydd	new	⠠⠠	wrth	to; by
⠠⠠	oedd	was	⠠⠠	ysgol	school; ladder

(Sylwer y dylid darllen ⠠⠠⠠ bob tro fel 'rhaid' ac nid fel 'rydwh'.)

Ni ellir defnyddio arwyddion gair os yw'r geiriau'n dreigledig. Er enghraifft, defnyddir P ar gyfer y gair 'pobl', ond nid am y ffurf dreigledig 'bobl' sy'n gorfod cael ei hysgrifennu allan.

Arwyddion Clwstwr

Arwyddion Clwstwr Uwch Syml:

Yn gyffredinol gellir defnyddio'r rheini ble bynnag ceir y llythrennau maent yn eu cynrychioli. Fodd bynnag, ni ellir treiglo ed yn y gyfres 'edd', nac of yn y gyfres 'off'.

∴ <u>ar</u>	∴ <u>er</u>	∴ <u>ow</u>
∴ <u>ed</u>	∴ <u>in</u>	∴ <u>st</u>
∴ <u>en</u>	∴ <u>of</u>	

Arwyddion Clwstwr Cyfansawdd:

Ni ddefnyddir y rheini ond ar ddiwedd geiriau, a byth fel geiriau cyfan.

Arwyddion Clwstwr Dotiau 4-6:

∴∴ <u>iaid</u>	terfyniad ar gyfer enwau cyffredin, e.e. anifeiliaid – animals
∴∴ <u>ion</u>	e.e. dynion – men
∴∴ <u>waith</u>	e.e. unwaith – once

Arwyddion Clwstwr Dotiau 5-6:

∴∴∴ <u>rwydd</u>	terfyniad enwau haniaethol, e.e. gwallgofrwydd – madness
------------------	--

- ⋮⋮⋮ yddes terfyniad yn dynodi person neu weithredydd, e.e. ysgrifenyddes – secretary
- ⋮⋮⋮ iaeth terfyniad enwau haniaethol, e.e. daearyddiaeth – geography

Ffuriau Byr

Gellir defnyddio ffurfiau byr fel rhannau o eiriau mewn bron i bob achos, os cedwir ystyron gwreiddiol y geiriau maent yn eu cynrychioli.

Ffurf Fer	Ystyr	Ystyr Saesneg
angh	anghofio	to forget
<u>ar</u>	ar	on
<u>arb</u>	arbennig	special
bdd	byddai	would be; he/she would be
bl	blwyddyn	year
brl	braille	braille
<u>dchr</u>	dechrau	beginning
<u>dch</u>	diolch	thank (you)
dw	diwedd	end
<u>dwth</u>	diwethaf	last
efll	efallai	maybe
eis	eisiau	want
ffr	ffrind	friend
gnd	gwneud	to make
grff	gorffen	finish
gw	gwelwch	you see; you can see
gwb	gwybod	to know
hn	hynny	that
llr	llythyr	letter
mdd	meddai	said
<u>nth</u>	neithiwr	last night

ohw	oherwydd	because
<u>p</u> end	penderfynu	to decide
pl	plant	children
prh	prynhawn	afternoon
<u>p</u> thu	pethau	things
rhw	rhyw	some; sex
rhw b	rhywbeth	something
rhwbr	rhywbryd	sometime
rhwf	rhywfodd	somehow
rhwft	rhywfaint	some amount
rhw l	rhywle	somewhere
rhwu	rhywun	someone
<u>s</u> t	stori	story
uwb	uwchben	above
<u>w</u> thu	weithiau	sometimes
ysg	ysgrifennu	to write

Acenion

⠠	^	hirnod	e.e. caniatâd – permission
⠠	ˆ	didolnod	e.e. copïo – to copy
⠠	`	disgynedig	e.e. pìn – pin
⠠	˘	dyrchafedig	e.e. carafán – caravan

Er mwyn osgoi gwrthdrawiadau gydag arwyddion UEB, rhoddir y rheol ganlynol ar waith: Gellir defnyddio'r acenion ar gyfer hirnod a didolnod cyn y llafariad a, e, i, o, u, w, y yn unig. Pan fo angen dot 4 neu ddotiau 45 cyn llafariad i gynrychioli arwydd fel y'i ddiffinir yn UEB (e.e. dot 4 e ar gyfer euro), dylai'r arwydd gradd 1, dotiau 56, ddod o'i flaen (h.y. mewn Braille Cymraeg yr arwydd euro yw ⠠⠠⠠⠠).

(Ni roddir yr uchod ar waith o fewn dulliau arbennig mewn UEB, e.e. yn dilyn yr arwydd saeth: gweithredir y rheolau UEB penodol yn y fath gyd-destunau, ac ni chaniateir defnyddio'r arwyddion uchod i gynrychioli acenion.)

Ni ellir cynnwys llythyren ag acen mewn cywasgiad, ond gellir defnyddio cywasgiadau eraill o fewn y gair.

[Hydref 2014]

Manylion cyswllt UKAAF

UKAAF

Blwch post 127

Cwmbrân

NP44 9BQ

Ffôn: 0845 60 85223

Ffac: 0845 60 85224

Ebost: enquiries@ukaaf.org

We: www.ukaaf.org

Cyfeiriad cofrestredig UKAAF

UKAAF

d/o Pia

Stryd Victoria

Cwmbrân

NP44 3YT

Llywydd: Lord Low of Dalston CBE

Rhif elusen gofrestrdig: 1126966

Yn gofrestrdig fel cwmni yn Lloegr a Chymru rhif: 6748900